newyddion UCU University and College Union / Undeb Prifysgol a Choleg Cymru news

Ionawr 2017

January 2017

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bolisïau Cymru

## Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)

Ar hyn o bryd, mae UCU Cymru a NUS Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu arolwg ar y cyd i gasglu data ar effaith CBC ar staff a myfyrwyr. Dosbarthwyd arolwg drafft i NUS Cymru ac aelodau UCU Cymru o weithgor CBC i'w drafod yn ei gyfarfod nesaf. Bwriedir y caiff arolygon ar wahân ond tebyg ar gyfer staff a myfyrwyr eu dosbarthu yn ddiweddarach yn y flwyddyn a chaiff y canlyniadau eu defnyddio i lywio ein trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru.

## Safon Broffesiynol i ddarlithwyr ym maes Addysg Bellach

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cynnal trafodaethau am safonau proffesiynol i ddarlithwyr ym maes Addysg Bellach yng Nghymru a phenodwyd **Bill Lucas** o Brifysgol Winchester gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r safonau newydd. Bydd Margaret Phelan (Swyddog Rhanbarthol UCU Cymru) a Lisa Edwards (Swyddog Polisi a Chyfathrebu UCU Cymru) yn cyfarfod â'r Athro Lucas ar ddiwedd mis Chwefror a byddant yn cadarnhau ein safbwynt, sef y dylai unrhyw safonau proffesiynol newydd fod er budd datblygiad proffesiynol yr unigolyn, nid yn rhestr wirio ar gyfer rheoli perfformiad.

# Policy Update Wales

## Welsh Baccalaureate Qualification (WBQ)

UCU Wales are currently working with NUS Cymru on developing a joint survey to gather data on the impact of the WBQ on both staff and students. A draft survey has been circulated to NUS Cymru and to UCU Wales members of the WBQ working group for discussion at their next meeting. It is planned that separate but comparable surveys for staff and students, will be distributed later in the year and the results will be used to inform our discussions with Welsh Government and Qualifications Wales.

## Professional Standard for lecturers in FE

We are currently engaged in discussion over new professional standards for lecturers in FE in Wales **Bill Lucas** of Winchester University has been appointed by Welsh Government to develop the new standards. Margaret Phelan (UCU Wales Regional Official) and Lisa Edwards (UCU Wales Policy and Communications Officer) will be meeting with Professor Lucas at the end of February and will be reiterating our position that any new professional standards must be for the benefit of the individual's professional development and not a checklist for performance management.

**Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET)**

Ar hyn o bryd, mae UCU Cymru wrthi'n ymgymryd â gwaith lobïo ar y cyd ag ATL, NAHT ac UCAC ar Fil ALNET. Rydym yn rhannu pryderon o ran y cyllid a fydd ar gael i weithredu'r cynigion yn y Bil, yn enwedig o ran hyfforddiant ystyrlon a hefyd y cynnydd yn y llwyth gwaith y mae'n debygol o'i greu. Bydd i'r cynnig yn y Bil oblygiadau ar gyfer Addysg Bellach gan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn cwmpasu'r ystod oedran rhwng 0 a 25 oed. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn berthnasol i Addysg Uwch. Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPEC) Cynulliad Cenedlaethol Cymru **wrthi'n ymgynghori** ar y Bil ar hyn o bryd. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y Bil, anfonwch nhw at **ledwards@ucu.org.uk** erbyn 10 Chwefror.

**Hazelkorn**

Mae **Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymateb** i adroddiad yr Athro Hazelkorn ar 'fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf'.

Comisiynwyd yr adroddiad i ystyried materion megis y cymhlethdod, y dyblygu a'r bylchau mewn darpariaeth sy'n cynyddu o hyd ym mhob rhan o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Gwnaeth ystyried sut y gellid alinio trefniadau llywodraethu a chyllido yn well, gan sicrhau system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n ehangu cyfleoedd addysgol a gyrfa.

Aethpwyd i'r afael â'r angen am gydgyngor cyllido ar gyfer Addysg Uwch

**Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill (ALNET)**

UCU Wales are currently undertaking joint lobbying with ATL, NAHT and UCAC on the ALNET Bill. We have shared concerns over the funding that will be available to implement the proposals in the Bill, particularly with regard to meaningful training and also to the increased workload that it is likely to generate. The proposal in the Bill will have implications for FE as the new legislation will cover the age range 0-25 years. However, the Bill does not apply to HE. The Children, Young People and Education Committee (CYPEC) of the National Assembly for Wales are **currently consulting** on the Bill. If you have any comments on the Bill, please forward them to **ledwards@ucu.org.uk** by 10th February.

**Hazelkorn**

**The Cabinet Secretary for Education has responded** to Professor Ellen Hazelkorn's report on a 'framework for building a world-class post-compulsory education system'.

The report was commissioned to examine issues such as the growing complexity, duplication and provision gaps across post-compulsory education and training. It considered how to better align governance and funding arrangements, ensuring a learner focused system that enhances educational and career opportunities.

The need for a joint funding council for H and FE was addressed in the **UCU Wales manifesto** and we therefore welcome

ac Addysg Bellach ym **manifesto UCU Cymru** ac felly rydym yn croesawu'r ffaith y gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dderbyn yr argymhellion.

Bydd ymgynghoriad pellach yn dilyn yn y gwanwyn.

**Cyllid cymorth i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru - ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Diamond.**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru **wrthi'n ymgynghori** ar ei chynigion ar gyfer cyllid cymorth i fyfyrwyr ac addysg uwch, a fyddai'n:

- newid y pecyn ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio ar lefel israddedig neu ôl-raddedig
- sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn lleoliad gofal yn cael yr uchafswm grant cynhaliaeth
- cyflwyno cynllun peilot er mwyn archwilio'r hyn sy'n ymarferol o ran ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU a'r UE
- gwneud newidiadau i'r cyfyngiadau presennol ar gymwysterau cyfatebol neu is at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

Mae UCU Cymru wedi gwahodd sylwadau gan aelodau a bydd yn cyflwyno ymateb ar eich rhan.

the Cabinet Secretary's acceptance of the recommendations.

Further consultation will follow in the spring.

**Support funding for students resident in Wales – Welsh Government response to the Diamond recommendations.**

Welsh Government are **currently consulting** on their proposals for student support and higher education funding, which would:

- change the tuition fee and maintenance support package for students resident in Wales who are studying at undergraduate or postgraduate level
- ensure that students with experience of a care setting receive the maximum level of maintenance grant
- introduce a pilot scheme to explore the practicalities of extending the student support package beyond the UK and EU
- make changes to current restrictions on equivalent or lower qualifications for the purposes of student support.

UCU Wales have invited comment from members and will be submitting a response on your behalf.

**Cysylltiadau Polisi**

Os oes gennych ddiddordeb mewn polisi addysg yng Nghymru ac os hoffech helpu swyddfa UCU Cymru drwy wirfoddoli fel cyswllt polisi/gwleidyddol yn eich cangen, cysylltwch â Lisa Edwards yn **ledwards@ucu.org.uk**

**Policy Contacts**

If you are interested in Welsh education policy and would like to assist the UCU Wales office by volunteering as a policy/political contact in your branch please contact Lisa Edwards at **ledwards@ucu.org.uk**